# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 38
14/12/20

## Geni Iesu Grist

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!




**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes,
Cadog, Guto a Brychan Edwards, Greg Leavers a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Stori





### Fersiwn Beibl.net

Dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. (Hwn oedd y cyfrifiad cyntaf, gafodd ei gynnal cyn bod Cwiriniws yn llywodraethwr Syria.) Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad.
Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd i gofrestru yn Jwdea – yn Bethlehem, hynny ydy tref Dafydd. Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi. Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.

*Luc 2:1-7 Beibl.net*



### Fersiwn syml

Roedd Awgwstws yr ymerawdwr wedi gorchymyn i gyfrif pawb oedd yn ei ymerodraeth. Roedd yn rhaid i bawb fynd i'r trefi ble cawsant eu geni er mwyn cofrestru. Felly, roedd yn rhaid i Joseff felly fynd i Fethlehem i gael ei gyfri ac aeth Mair gydag ef. Roedd yn siwrnai bell iawn a bu Mair a Joseff yn teithio am amser hir. Roedden nhw'n hapus iawn pan gyrhaeddon nhw Fethlehem. Roedd pob un llety yn llawn ond cawson nhw aros mewn beudy gyda'r holl anifeiliaid. Ganwyd Iesu y noson honno gyda'r anifeiliaid yn gwylio mewn syndod. Lapiodd Mair Iesu mewn cadachau a'i osod i orwedd mewn cafn bwydo anifeiliad. Roedd Mair a Joseff wrth eu bodd pan anwyd Iesu.



# Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:



1. Beth ydy'r pellter mwyaf wyt ti wedi ei gerdded?
2. Pam oedd Joseff a Mair yn gorfod mynd yr holl ffordd o Nasareth i Fethlehem?
3. Sut wyt ti'n meddwl oedden nhw'n teimlo pan nad oedd lle iawn iddyn nhw aros?
4. Beth fuaset ti eisiau ei wneud pe byddai Mair a Joseff wedi curo ar ddrws dy dŷ di yn chwilio am le i aros?

# Gweddi fer


O Dduw, diolch i Ti am anfon Iesu yn fabi bach i'r byd ar y Nadolig cyntaf un. Diolch i Ti am yr anrheg gorau erioed – Iesu.
Plîs helpa fi i gofio mai dyma'r rheswm yr ydyn ni'n dathlu'r Nadolig.
Amen.




# Stori i'w lliwio

# Cafodd Iesu ei eni ym Methlehem


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Ni chafodd Iesu ei eni mewn palas na thŷ mawr, crand. Cafodd ei eni mewn stabl mewn tref fechan o'r enw Bethlehem. Doedd dim crud hyd yn oed ar ei gyfer.




Roedd Joseff y saer yn byw yn nhref Nasareth. Un noson anfonodd Duw yr angel Gabriel ato i ddweud wrtho fod y babi roedd Mair yn ei ddisgwyl yn Fab Duw, yr Un oedd wedi ei addo. Roedd angen i Joseff briodi Mair a gofalu amdani hi a'r babi bach.



Roedd yr Ymeradwr Awgwstws eisiau rhagor o arian trethi. Pasiodd ddeddf newydd. Roedd yn rhaid i bawb ddychwelyd i drefi eu hynafiaid er mwyn rhoi eu henwau ar gofrestr arbennig, felly bu'n rhaid i Joseff fynd yn ôl i Fethlehem.




"Roedd un o fy hynafiaid, Dafydd, yn dod o Fethlehem," meddai Joseff wrth Mair, 'felly bydd yn rhaid i mi fynd yno i gofrestru. Bydd yn rhaid i ti ddod hefyd er dy fod yn agos i roi genedigaeth. Mae Duw am i mi ofalu amdanat ti a'r babi."



Cymerodd tua tridiau iddyn nhw fynd i Fethlehem ac fe gafodd Mair ei chario ar gefn yr asyn. Roedd yn siwrnai anodd dros dir garw ac roedd Mair wedi blino'n lân ac yn hynod o anghyfforddus.



Roedd cymaint o bobl wedi dod i Fethlehem i gofrestru a doedd yna'r un lle i Mair a Joseff aros heblaw am stabl ddrewllyd ble cysgai'r anifeiliaid.



Y noson honno ganed y baban Iesu, y Gwaredwr oedd Duw wedi ei addo, yn y stabl ym Methlehem.



Galwodd Mair a Joseff y baban yn Iesu yn union fel roedd yr angel wedi dweud wrthyn nhw am wneud. Lapion nhw'r bychan mewn cadach llin meddal a gwneud crud iddo yn y preseb oedd yn dal yr ŷd.

# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/RHCPJbxpQCo

Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/BSt0_vg4tfY





Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=v3656G6tWuI&t=20s



Sgetsh bypedau - Gwir ystyr y Nadolig
https://youtu.be/Cn0b45AGKO8




# Gweddi greadigol


## Gweddi cerdyn post

Roedd Mair a Joseff wedi gorfod teithio'r holl ffordd o Nasareth i Fethlehem gan fod teulu Joseff yn wreiddiol o Fethlehem.

**Byddi angen:**
- Darn o gerdyn maint cerdyn post
- Pinnau ffelt

**Sut i wneud:**
- Ar un ochr i'r cerdyn tynna lun o Mair a Joseff yn y stabl gyda'r baban Iesu yn y preseb.
- Meddylia am aelodau o dy deulu.
- Ar ochr arall y cerdyn ysgrifenna weddi yn diolch i Dduw am aelodau o dy deulu a thynna lun ohonynt.









## Llawenhewch!

Llawenhewch! Mae'r Gwaredwr wedi cael ei eni. Mae hanes y Nadolig yn llawn llawenydd a gorfoledd wrth i ni gofio fod Iesu wedi dod i'r byd. Oes yna rywbeth sydd yn dy wneud yn llawen? Efallai bod rhywbeth am hanes y Nadolig yn dy wneud yn hapus? Torra seren allan, ei haddurno â "glitter" ac ysgrifenna arni beth sy'n dy wneud di'n llawen.

# Posau

Fedri di helpu Mair a Joseff i gyrraedd y llety ym Methlehem?









Lle wnaethon nhw rhoi'r baban Iesu?

## Adnod dot i ddot




Ysgrifenna'r adnod yn ei threfn D___ M___ __ __p__ ____ch__ __n_ __ _f____
__d___, _'_ _s__ _ __w__ m___ __f_ __ _y___ _w___ __i________.

# Rysáit

## Cinio "Hanes y geni"



- Ar gyfer Joseff byddi angen 2 rawnwinen.
- Ar gyfer Mair byddi angen 2 rawnwinen.
- Ar gyfer gwneud amlinelliad o'r stabl fe elli di ddefnyddio "bread sticks."
- Ar gyfer y preseb byddi angen tefyll o afal.
- Ar gyfer y baban Iesu gelli ddefnyddio tafell o ham neu dwrci wedi ei rolio i wneud corff y babi a grawnwinen ar gyfer ei ben.
- Ar gyfer y bugeiliaid a'r defaid defnyddia rawnwin a "mini marshmallows."
- Ar gyfer gwneud y seren torra dafell o gaws yn siâp seren.
- Ar gyfer yr aur, thus a myrr defnyddia fferins mewn papur gloyw neu "wine gums."



# Crefft

## ADDURN 'IESU'










**Ar gyfer gwneud yr addurn 'IESU' byddi angen:**
Templedi'r calonnau wedi eu hargraffu (oddi ar y dudalen hon), siswrn, bocs bwyd gwag e,e. grawnfwyd, glud, rhuban Nadolig, pinnau ffelt neu bensiliau lliw.







1. Agora'r bocs bwyd allan a gluda'r templedi calonnau ar y cardfwrdd..



2. Torra'r calonnau allan.



3. Lliwia'r calonnau.



4. Gwna ddolen/lŵp yn y rhuban fel y gelli hongian yr addurn i fyny.



5. Gluda'r calonnau 'Iesu' i lawr y rhuban gan adael yr un faint o le rhwng pob un. Rho'r galon sydd â chalon fach arni ar y gwaelod.

6. Tro'r addurn drosodd a gluda'r calonnau â'r lluniau arnynt ar gefn y calonnau â'r llythrennau IESU arnynt. Gwna'n siŵr dy fod yn gludo'r lluniau yn y drefn gywir fel sydd yn y llun wrth yr adnod



**Ioan 3:16**

Mae Duw wedi caru'r

byd cymaint

nes iddo roi

ei unig Fab

er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | A | CH | G | E | N | F | A | T | N | Y | C |
| FF | E | S | O | J | E | C | Y | F | R | I | A |
| E | B | TH | M | A | L | Y | W | G | S | I | D |
| LL | R | N | L | TH | I | W | J | W | D | E | A |
| S | E | D | A | E | L | I | L | A | G | L | CH |
| W | N | T | A | R | H | E | L | F | O | A | A |
| T | I | H | Y | A | B | E | S | E | R | P | U |
| S | N | O | LL | S | M | A | M | R | W | I | R |
| W | G | W | R | A | I | G | LL | T | E | O | A |
| G | E | N | I | N | D | A | F | Y | DD | U | S |
| W | O | R | I | E | S | U | I | B | A | B | E |
| A | N | I | F | E | I | L | I | A | I | D | C |

ADRE
ANIFEILIAID
AWGWSTWS
BABI
BACHGEN
BETHLEHEM
BRENIN
CADACHAU
CESAR
CYFRI
CYNTAF
DAFYDD
DISGWYL
GALILEA
GENI
GORWEDD
GWRAIG
LAPIO
LLETY
MAIR
NASARETH
PRESEB
JOSEFF
JWDEA
TREF
IESU

# Sialensau



## Seren y stabl

Rho dy hun yn y llun!
Gwisga fel un o'r cymeriadau yn hanes geni Iesu.
Tynna lun ohonot dy hun a'i anfon i dy grŵp Ysgol Sul neu dy grŵp CIC ar Whatsapp.

## Set o fodelau'r Geni

Os oes gennych set o fodelau'r Geni, beth am roi'r cymeriadau o amgylch y tŷ? Bydd angen i ti roi Mair a Joseff gyda'i gilydd.
Pob dydd, symuda nhw'n agosach at y stabl.
Os nad oes gennych set o fodelau'r Geni, fedri di wneud rhai trwy beintio cerrig. Byddi angen Mair, Joseff, y baban Iesu, bugeiliaid, angel a doethion.





# Gemau

## Pump Eiliad

**Byddi angen:**

- Amserydd ar ffôn.
- Rhestr o eiriau sy'n gysylltiedig â'r Nadolig ar ddarnau o bapur.
- 2 neu fwy o chwaraewyr.

| | | |
|---|---|---|
| Babi | Teithio | Anifeiliaid fferm |
| Teulu | Brenin | Nadolig |
| Anrhegion Nadolig | Bwyd Nadolig | Cymeriadau hanes y Nadolig |

**Sut i chwarae:**

- Mae chwaraewr yn dewis un o'r papurau.
- Mae'r chwaraewr yn cael 5 eiliad i enwi tri pheth sy'n gysylltiedig â'r gair.
- Os ydy'r chwaraewr yn llwyddo, mae'n cael cyfle arall.
- Mae chwaraewr arall yn amseru 5 eiliad.
- Pan mae'r chwaraewr cyntaf yn methu, mae'r chwaraewr nesaf yn cael cyfle, a rhywun arall yn amseru.

## Gêm Cuddio a Chwilio

Cuddia luniau o hanes geni'r Iesu o gwmpas y tŷ. Fe allet ti ddefnyddio taflen liwio'r wythnos hon. Allech chi gael gêm o guddio a chwilio ac wedi i'r person sy'n chwilio ddod o hyd i'r darnau gall roi'r cyfan at ei gilydd. Fe ellid chwarae'r gêm fel ras ac amseru'ch gilydd a gweld pwy all ddod o hyd i'r darnau i gyd gyntaf a gosod y llun at ei gilydd gyflymaf?

# Canu

Mair a Joseff aeth - ar siwrnai pellter maith - i Fethlehem (Bethlehem)
Gorfod mynd i stabal - llety yr anifail - i gael to uwch ben (to uwch ben)
Yno yn y gwair - fe anwyd baban Mair - ein Iesu gwyn (Iesu gwyn)
Dyna meddai'r angel ac fe ddaeth yn wir.

Cwmni o fugeiliaid - gyda'u praidd o ddefaid - ar y bryn (ar y bryn)
Glywodd gôr angylion - yn rhannu eu newyddion
- a'u gwylio'n syn (gwylio'n syn)
Yna'n mynd gan foli - i Fethlem i addoli - Meseia dyn (Meseia dyn)
Dyna gân yr angel ac fe ddaeth yn wir.

Yna daeth y doethion - gydag eu hanrhegion - at y crud (at y crud)
Dod ar siwrnai hir - ag aur a thus a myrr - yn roddion drud (rhoddion drud)
Golau seren wen - yn arwain uwch eu pen - at frenin byd (brenin byd)
Dyna meddai'r 'sgrythur ac fe ddaeth yn wir.

Fe ddaeth Duw ei hun - i fyw yma fel dyn - a'n harwain ni (arwain ni)
Mae'n hangen ni yn fawr - ac felly daeth i lawr - i'n hachub ni (achub ni)
Dewch i gyd i ddathlu - diwrnod mawr ei eni - ein Dolig ni (Dolig ni)
Dyma wnaeth O'i addo ac fe ddaeth yn wir.

**Iesu, mab annwyl Duw**
**Haleliwia, yn y crud**
**Mae'r un i ddangos i'r holl fyd**
**Y ffordd fendithiol i fyw.**
**Iesu, mab annwyl Duw**
**Roddwyd i ni'n anrheg ddrud**
**G-W-A-Redwr y byd**
**Heddiw yma yn fyw.**



*Greg Leavers Cyf. Dafydd Chilton Hawlfraint 2016*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/BSt0_vg4tfY

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org